

❖ GŴR Y LLETY

Prin iawn yw hanesion yr Efengylau am eni Iesu Grist. Diolch i Mathew a Luc am gofnodi hanes y doethion a'r bugeiliaid. Hanesion ydynt sy'n gymysg o ffaith a ffug. Collwyd rhai o'r ffeithiau manwl gywir yn niwloedd amser. Ond mae neges y Nadolig – a hynny bob blwyddyn – yn dal i lewyrchu fel y gwnaeth y seren uwch stabl Bethlehem. Ie, hen stori ond nid yw'n heneiddio.

Yn Nrama'r Geni ceir un cymeriad na wyddom pwy ydoedd. Anaml y caiff ymddangos ar y llwyfan. Nid oes raid i athrawon Ysgol Sul na mamau'r plant boeni beth gânt i'w ddilladu. Ni chaiff gyfle i actio ond clywir ei lais yn dweud bod y llety'n llawn. Ni wyddom pa fath o lety oedd ganddo. Nid 'bwthyn heb fawr o bethau'. Nid tŷ teras. Nid tŷ gwely a brecwast. Rhaid ei fod yn dŷ gweddol fawr. Roedd pobl yn heidio yno. Y cyntaf i'r felin ydoedd. Diau fod gŵr y llety yn falch o gael gosod yr arwydd *No Vacancies*. Er na wyddom enw'r gŵr, hawdd yw ei nabod heddiw. Yn wir, mae pob un ohonom, ar rai adegau, yn gallu bod yn debyg iawn iddo. Nid dyn creulon fel Herod ydoedd. Dyn prysur ydoedd. Ei broblem oedd ei brysurdeb. Onid prysurdeb sy'n rhannol gyfrifol am gyflwr crefydd ein cyfnod? Collodd hwn gyfle mawr ei fywyd. Nid cyfle i ddod yn gyfoethocach yn ariannol, ond i dderbyn yr un y dywedid mai ef yw'r cyfoeth gorau a'r trysor mawr. Sgwn i gafodd o wybod pwy oedd y ddau oedd yn chwilio am lety? Os cafodd, mae'n sicr ei fod yn gofidio ac yn edifar. Ceir awgrym o hynny yng ngeiriau'r garol 'Gŵr y Llety'! 'Bu raid imi ddweud bod y llety'n llawn a chlywais hwy'n sibrwd, "Pa beth a wnawn?"'

Pe bai'r gŵr hwn wedi derbyn y ddau ymwelydd o Nasareth byddai ef a'i westy yn wir freintiedig. Gallai osod plac ger mynedfa'r gwesty i nodi mai 'Yma y ganwyd Brenin y brenhinoedd ac Arglwydd yr arglwyddi'. Byddai geiriad y plac yn gyfrwng i uwchraddio'r gwesty o fod yn westy un seren i un pum seren.

Nid condemnio gŵr y llety a ddylem, ond gofidio iddo wneud un o gamgymeriadau mawr ei fywyd. Mae'n hawdd bod yn debyg iddo. Mae ei ymddygiad nid yn broblem ond yn rhybudd. Yng nghanol dathliadau'r Nadolig gwyliwn fod mor brysur yn addurno'r crud ond heb amser i addoli'r Ceidwad.

Trefor Jones